# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**2009 mccc 1**

## RHAN 3

### GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG, HYFFORDDIANT A SGILIAU

*Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr*

**40 Gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo person a grybwyllir yn is-adran (2)—

(a) i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr;

(b) i sicrhau bod gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cael eu darparu;

(c) i gymryd rhan yn y broses o ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

(2) Y personau yw—

(a) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru;

(b) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(3) Yn yr adran hon ystyr "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr" yw gwasanaethau a fydd ym marn Gweinidogion Cymru yn annog, galluogi neu gynorthwyo personau ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)—

(a) i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;

(b) i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith cyflogedig; neu

(c) i gymryd rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

(4) Caniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (1)—

(a) cynnwys darpariaeth ar gyfer grantiau, benthyciadau a mathau eraill o gymorth ariannol sydd i'w darparu gan Weinidogion Cymru (p'un ai o dan amodau ai peidio);

(b) ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru;

(c) ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu, wrth iddo wneud trefniadau â phersonau eraill, ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Caniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (1)—

(a) ymwneud â dosbarthiad penodol o berson ifanc;

(b) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer dosbarthiadau gwahanol o berson ifanc;

(c) cael ei ddirymu neu ei amrywio gan gyfarwyddyd diweddarach.

(6) Pan fo cyfarwyddyd o dan is-adran (1) yn ymwneud â darparu gwasanaeth ar ffurf cyngor neu wybodaeth, rhaid iddo gael ei lunio fel ei fod—

(a) yn ymwneud yn unig â gwybodaeth sydd wedi ei chyflwyno mewn modd diduedd; a

(b) yn ymwneud yn unig â chyngor—

(i) sydd wedi ei roi gan berson sy'n ystyried y bydd y cyngor hwnnw yn hyrwyddo lles pennaf y person ifanc o dan sylw; a

(ii) nad yw'n ceisio hyrwyddo buddiannau neu ddyheadau unrhyw ysgol, sefydliad neu berson arall, yn groes i les pennaf y person ifanc.

(7) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "personau ifanc" yw personau sydd wedi cyrraedd un ar ddeg oed ond nid chwech ar hugain oed;

(b) mae i "sefydliad yn y sector addysg bellach" yr ystyr a roddir i "institution within the further education sector" yn Neddf Addysg 1996 (p. 56);

(c) mae i "ysgol a gynhelir" yr ystyr a roddir i "maintained school" yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

## 41 Dyletswyddau cyrff llywodraethu

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan adran 40(1).

(2) Caniateir i gamau y mae corff llywodraethu yn eu cymryd yn unol ag is-adran (1) ymwneud â dosbarthiad penodol o berson ifanc.

## 42 Diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000

(1) Mae Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21) wedi'i diwygio'n unol â'r adran hon.

(2) Yn is-adran (1) o adran 126 o'r Ddeddf honno, ar ôl "section 123(1)(a) or (b)" mewnosoder "or section 40(1)(a) or (b) of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009".

(3) Yn is-adran (1)(a) o adran 127 o'r Ddeddf honno, ar ôl "section 123(1)" mewnosoder "or section 40(1) of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009".